wrap Cymru

Awgrymiadau da ar gyfer gwella eich effeithlonrwydd

Top Tips for Improving Your Resource Efficiency

Ailgylchu

Lleihau gwastraff ddylai fod yn flaenoriaeth. Yn gyntaf, ystyriwch a oes modd ailddefnyddio eitemau yn hytrach na'u hailgylchu. Mae modd ailgylchu oddeutu 70 y cant o wastraff swyddfa. I sefydlu system ailgylchu effeithiol yn eich sefydliad, **bydd angen i chi:**

- Ddeall faint a math y gwastraff rydych chi'n ei gynhyrchu, ac yna priodoli cost i hyn. Bydd angen i chi ddeall costau prynu'r cynnyrch a chostau ei waredu. Bydd angen i chi drosi'r rhain yn ffigurau blynyddol i'ch helpu chi i ddeall yr effaith ar eich busnes a pha feysydd fydd angen i chi eu blaenoriaethu, o bosibl.
- Labelwch finiau ailgylchu yn glir i ddangos beth y gellir ei ailgylchu yn ble.
- Gwiriwch gynnwys eich biniau ailgylchu. A yw'r deunyddiau cywir yn cael eu rhoi yn y biniau cywir?
- Gwiriwch eich biniau gwastraff cyffredinol i sicrhau nad oes eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael eu taflu yno. Gwiriwch yn ddyddiol, efallai y cewch eich synnu beth fyddwch yn ei ganfod.

Recycling

Reducing waste should be a priority. First think about whether items could be re-used rather than recycled. About 70 per cent of office waste is recyclable. To set up an effective recycling system in your organisation, **you will need to:**

- Understand the volume and types of waste you produce and then work out a reasonable cost to this. You will need to understand costs for the purchase of each product and its disposal. Convert these to annual figures to help you understand the impact on your business and which areas you may need to prioritise.
- Clearly label recycling bins to show what can be recycled and where.
- Check the contents of your recycling bins. Are the right materials are going in the right bin?
- Check your general waste bins to ensure recyclable items are not being thrown away. Carry out daily checks; you might be surprised by what you find.

Awgrymiadau Da ar gyfer Gwella Eich Effeithlonrwydd

Top Tips for Improving Your Resource Efficiency

Ailgylchu • Recycling

Ystyriwch dynnu neu leihau nifer y biniau gwastraff yn eich eiddo.

Consider removing or reducing the number of waste bins around your premises.

Mae gofyniad cyfreithiol bellach i gasglu deunyddiau ailgylchu ar wahân. A yw eich cwmni casglu yn bodloni'r gofyniad hwn? Mewn swyddfa gyffredin, mae'n arferol ailgylchu papur, cerdyn, gwydr, plastig a metel ar wahân.

There is now a legal requirement for the separate collection of recycling. Is your waste management contractor meeting this requirement? In an average office it is usual to have segregated recycling for paper, card, glass, plastic and metal.

Mae ymchwil WRAP yn dangos bod pobl yn ymateb yn well i unedau ailgylchu wedi'u labelu'n glir a negeseuon ategol. I weithredu systemau arwahanu effeithiol:

- crëwch orsafoedd ailgylchu â'r holl gynwysyddion mewn un man
- defnyddiwch god lliw ar gyfer y cynwysyddion i hyrwyddo cysondeb yn y busnes ac osgoi dryswch ynghylch pa eitemau y dylid eu gosod ym mha fin
- rhowch wybod i'r gweithwyr beth allan nhw ei ailgylchu trwy weithredu ymgyrch ymwybyddiaeth a gosod cyfarwyddiadau wrth y biniau, a
- gwnewch yn siŵr bod deunydd pacio yn cael eu gwastadu fel na fydd y cynwysyddion yn cael eu llenwi gydag aer neu wagle.

WRAP research shows that people respond better to clearly labelled recycling units and supporting messages. To implement effective segregation systems:

- create recycling stations with all the containers in one place
- colour-code the containers to promote consistency throughout your business and avoid confusion about what items go in which bin
- let employees know what they can recycle by implementing an awareness campaign and placing instructions by the bins, and
- ensure that packaging is flattened so that containers are not filled with air or empty space.

Mae croeshalogi yn cynyddu faint o wastraff rydych chi'n ei anfon i safleoedd tirlenwir a gallai gynyddu eich costau gwaredu.

Cross-contamination increases the amount of waste you send to landfill and could increase your disposal costs.

I helpu i sicrhau bod yn eich cynllun ailgylchu yn effeithiol, mae gan WRAP Cymru ddwy set o dempledi gwaith celf dwyieithog y gallwch eu defnyddio ar gyfer negeseuon ac arwyddion, y gellir eu haddasu ar gyfer anghenion eich busnes. Ewch i www.wrapcymru.org.uk/cy/content/ailgylchu-oddi-cartref-yng-Nghymru

To help ensure your recycling scheme is effective, WRAP Cymru has two sets of bilingual artwork templates you can use for messaging and signage, which can be adapted for your business needs. Visit www.wrapcymru.org.uk/rotg

Gweithiwch gyda'ch contractwr rheoli gwastraff i sicrhau y gallwch ailgylchu ystod eang o ddeunyddiau a bod eich contract gwastraff yn bodloni anghenion eich busnes.

Work with your waste management contractor to ensure you can recycle a wide range of materials, and that your waste contract meets the needs of your business.

Awgrymiadau Da ar gyfer Gwella Eich Effeithlonrwydd

Top Tips for Improving Your Resource Efficiency

Ailgylchu • Recycling

Gofynnwch eich contractwr rheoli gwastraff pa ostyngiadau sydd ar gael ar gyfer gwahanu gwastraff. Efallai y byddwch yn gallu lleihau cost eich gwasanaeth neu hyd yn oed drafod incwm ar gyfer deunyddiau wedi'u gwahanu neu eu bwndelu.

Ask your waste management contractor what discounts are available for segregating waste. You may be able to reduce the costs of your service or even negotiate an income for segregated or baled materials.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n deall y gwasanaeth a ddarperir gan eich contractwr rheoli gwastraff a'i fod yn bodloni eich anghenion.

- Pa mor aml caiff y biniau eu casglu? Ydyn nhw'n llawn pan cânt eu casglu? Gallech chi fod yn talu am gasglu biniau gwag neu rannol wag.
- A oes gwasanaethau ychwanegol, fel archwiliadau gwastraff neu gynlluniau atal gwastraff ar gael i'ch helpu chi i reoli neu leihau eich gwastraff? Sut a phryd fydd dogfen 'Dyletswydd Gofal' yn cael ei darparu?

Ensure you understand the service provided by your waste management contractor and that it meets your needs.

- How often are bins collected? Are they full when collected? You could be paying for empty or partially-empty bins being collected.
- Are additional services, such as waste audits or waste prevention planning, available to help you manage or reduce your waste? How and when will 'Duty of Care' documentation will be provided?

Trwy ailgylchu cymaint â phosibl, efallai y byddwch yn gallu lleihau eich costau gwaredu gwastraff. Mae ailgylchu'n costio llai nag anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, yn enwedig os ydych chi'n gwahanu eich gwastraff.

By recycling as much as possible you might be able to reduce your waste disposal costs. Recycling costs less than disposal to landfill, particularly if you segregate your waste.

wrap Cymru

www.wrapcymru.org.uk
02920 100 100
@WRAP_Cymru

Mae WRAP yn Elusen gofrestredig rhif 1159512 ac mae wedi'i gofrestru fel Cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr rhif 4125764.
WRAP is a registered Charity No. 1159512 and registered as a Company limited by guarantee in England & Wales No. 4125764.

Cymru Effeithlon
Resource Efficient Wales
0300 123 2020
Arbed ynni, gwastraff a dŵr | Saving on energy, waste and water

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WAL0010/07/15